

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher 4ydd Rhagfyr 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Aberangell.

Presennol; Cynghorwyr Iwan Foulkes , Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Berwyn Harding, Arfon Hughes, Sion Alun Roberts, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cynghorydd Iwan Foukes.**

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Berwyn Hughes, Robin Hughes a Geraint Morgans.

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf:**

Atgoffodd y Clerc fod cofnodion dau gyfarfod wedi eu gyrru allan, sef y cyfarfod agored yn ol y drefn arferol, a'r rhan gaedig a oedd wedi eu gyrru allan yn gyfrinachol i aelodau Cyngor Mawddwy yn unig. Os oedd materion yn codi o'r cyfarfod caeedig, yna awgrymodd y Clerc y dylai'r Cynghorwyr ystyried gwneud y drafodaeth eto yn gaedig yng ngwyneb sensitifrwydd a chyfrinachedd y mater dan sylw.

Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod o'r 16eg o Hydref fel rhai cywir ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Berwyn Harding.

Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod caeedig o'r 16eg o Hydref fel rhai cywir ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Berwyn Harding.

3. **Materion yn codi .**

- a) **Ffens derfyn rhwng mynwent Llanymawddwy a thir ochr ucha'r fynwent** – adroddwyd fod hyn mewn llaw.
- b) **Gwaith ffensio llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas**, sef o dan y darn newydd a wnaethpwyd yno. Adroddwyd fod y Cadeirydd Iwan Foulkes, ynghyd a'r Clerc wedi cyfarfod Dafydd Brynion a Geraint Troedyrhiw ar y safle, ac reodd amcangyfrifon i law. Roedd amcangyfrif Geraint am gyfanswm o £630, ac amcangyfrif Dafydd yn £275 am ddeunyddiau, £250 am lafur, a gyda TAW byddai yn £630. Penderfynwyd, ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan John P Jones i fynd am y pris rhataf, a gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Dafydd er mwyn gwneud y gwaith mor fuan a sy'n gyfleus.
- c) Gan gyfeirio at y **campervans yn parcio yn Lawnt y Plas**, atgoffwyd pawb fod rhaid cadw golwg ar y sefyllfa.
- d) **Bwrdd gwybodaeth a oedd wedi ei daro i lawr yn Mallwyd** – penderfynwyd y dylid gofyn i Hefin Pugh ei drwsio a'i ail-osod.
- e) **Gwefan y Cyngor** – adroddodd y Clerc fod y gwaith cychwynol wedi ei gwblhau, a mynegwyd eiriau caredig gan y Cynghorwyr am y cynnwys. Dywedodd y Clerc fod rhaid ychwanegu tudalennau pellach maes o law, gan gynnwys yr hysbysebion cyhoeddus, polisi iaith a pholisi amgylcheddol. Atgoffwyd y Cynghorwyr y byddai cost o £30 y dudalen, a chadarnhawyd nad oedd problem efo hyn.
- f) **Coeden Nadolig o flaen y Neuadd** – adroddodd y Clerc ei fod wedi cwblhau y trefniadau, ac y byddai'r goeden yn cael ei rhoi gan Geraint Evans Gwanas

eto eleni. Byddai yn cael ei chludo ganddo a'i rhoi o flaen y neuadd erbyn 6yh Nos Iau y 5ed o Ragfyr. Cytunodd y Cyngorwyr Hedd Pugh, John P Jones, Idris Jones a Catrin Jones i gynorthwyo yn y gwaith o'i gosod yn ddiogel o flaen y Neuadd, a threfnu efo'r goleuadau. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb am gytuno efo'r gwaith yma. Atgoffwyd pawb fod Geraint yn dymuno i'r Cyngor Cymuned wneud rhodd o £50 i Sioe Dinas fel cyfraniad ganddo. Diolchwyd yn fawr iawn i Geraint unwaith eto eleni.

- g) **Cwyn yng nghyswllt giat yr Ysgol**, sef ei bod yn cael ei chloi, a bod trafndiaeth i'r Ysgol yn gorfod rifysio gan greu trafferth – gofynwyd a allai y Clerc ddanfôn y nodyn a aeth i Gyngor Gwynedd ymlaen i Bennaeth yr Ysgol.
- h) **Cais llinell ffeibr i Lanymaddwy**, adroddod y Cyng John P Roberts fod BT wedi ymrwymo i wneud y gwaith o fewn y flwyddyn.
- i) Materion Priffyrdd – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.

- j) Gan gyfeirio at y rhan caedig o gyfarfod 16eg Hydref o'r Cyngor, adroddodd y Clerc ei fod wedi ymateb i'r holl bwyntiau yr oedd y Cyng Arfon Hughes yn ei godi yn ei llythyr mewn e-bost iddo dyddiedig 23ain o Hydref 2019, ac roedd copi wedi ei ddanfôn i bawb o Gyngorwyr Mawddwy. Nododd y Clerc hefyd fod e-bost wedi ei ddanfôn i Arfon ar yr 22ain o Hydref 2017 yn nodi cefnogaeth Cyngor Cymuned Mawddwy i Gwmni Nod Glas Cyf ynghylch datblygu llwybrau yn ardal Mawddwy. Rhoddwyd copi arall iddo, ac roedd y Cyng Arfon Hughes yn cydnabod ei fod wedi derbyn yr ohebiaeth yma.

Gan gyfeirio at y rhan gaeedig o gyfarfod Cyngor Mawddwy dyddiedig 16eg Hydref, gofynnodd y Cyng. Arfon Hughes a oedd yna ymddiheuriad iddo ef gan y Cyngor Cymuned a gan y Clerc yng nghyswllt llythyr Catrin Jones a ddanfônwyd i'r Cyngor Cymuned ym mis Mawrth.

Mynegodd y Clerc ei siom ddirfawr fod cais iddo ef ei hun fel cofnodwr a gweinyddwr y Cyngor i ystyried ymddiheuriad, ac ychwanegodd gweddill y Cyngorwyr fod hyn yn gwbwl allan o drefn.(yn ddiweddarach yn y drafodaeth fodd bynnag, fe ddywedodd Arfon nad oedd cais ganddo i'r Clerc ymddiheuro)

Yn wir fe fynegwyd barn gan y Cyngorwyr mai y Clerc ei hun ddylai fod yn derbyn ymddiheuriad am fod wedi gorfod ymdrin a'r holl fater yma.

Gofynnodd y Cyng Hedd Pugh i'r Cyng Arfon Hughes beth yn union oedd ystyr y cais am ymddiheuriad, a beth yn union y cyfeiriwyd ato. Atgoffwyd pawb fod hyn wedi ei drafod ar fwy nag un achlysur. Hefyd roedd penderfyniad wedi ei wneud nad oedd cynnwys llythyr y Cyng. Catrin Jones dyddiedig 11.03.19 ddim oll i'w wneud a'r Cyngor Cymuned, ac ychwanegwyd hefyd gan Gyngorwyr eraill nad oedd y Cyng Arfon Hughes nac unrhyw unigolyn arall yn cael ei enwi ynddo.

Dywedodd y Cyng Arfon Hughes fod llythyr Cyng. Catrin Jones o'r 11eg o Fawrth 2019 wedi ei ddarlennu mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, a bod trafodaeth wedi bod yn y Cyngor ynghylch y mater.

Dywedodd y Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) y dylid datrys y mater yma er lles y gymuned, ac eglurodd nad oedd ef yn aelod o Gwmni Nod Glas ers iddo ddod yn Gyngorydd ar Gyngor Gwynedd.

Ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan John P Jones, penderfynwyd i wneud y rhan yma o'r cyfarfod yn un caeedig yng ngwyneb sensitifrwydd a chyfrinachedd y sefyllfa. Yng nghwyneb hyn, cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Y Cyng Arfon Hughes a Catrin Jones, a gadawsant yr ystafell. Hefyd bu i'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) adael yr ystafell.

Yna aethpwyd ymlaen i weddill y cyfarfod, a'i ail-agor am 8.30pm.

Yn dilyn ymholiad dywedodd y Cadeirydd, Y Cyng. Iwan Foulkes fod y Cyngor wedi dod i benderfyniad ar y mater yma yn y gorffennol, gan gynnwys cyfarfod caedig ar yr 16eg o Hydref. Dywedodd fod hyn unwaith eto wedi ei gadarnhau, sef nad oedd llythyr y Cyng Catrin Jones ddim oll i'w wneud a Chyngor Mawddwy. Ni fedrai'r Cyngor felly gynnig unrhyw ymddiheuriad, gan nad oedd y Cyngor wedi gwneud dim o'i le. Mynegwyd hefyd y farn unfrydol gan y Cyngor nad oedd gan y Clerc unrhyw beth i ymddiheuro amdano.

Atgoffwyd pawb hefyd ein bod wedi cael barn yr Uwch Gyfreithiwr Sion Huws o Gyngor Gwynedd ar y mater dan sylw, ac atgoffwyd pawb o gynnwys e bost ganddo dyddiedig 16eg o Fedi oedd yn darllen fel a ganlyn;

'Yn y pen draw mae pob aelod yn atebol yn bersonol am ei ymddygiad ei hun. Gall unrhyw un gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon fod aelod wedi torri'r Cod ymddygiad i Aelodau, a chwyn yn erbyn yr aelod fyddai hynny yn hytrach na'r cyngor. Yn yr ystyr hynny felly nid yw'r cyngor yn atebol am ymddygiad un o'i aelodau ac nid oes ganddo bwerau i gymryd unrhyw gamau ffurfiol yn erbyn aelod'..

Ar gynnig gan y Cynghorydd Hedd Pugh, a'i eilio gan y Cynghorydd Idris Jones, penderfynwyd mynd ymlaen a gweddill materion y cyfarfod, ond dywedodd y Cynghorydd Arfon Hughes y byddai yn parhau i ofyn am ymddiheuriad yn ystod y cyfarfod.

4. Materion Cynllunio.

Roedd un cais cynllunio wedi cael ei ystyried ers y cyfarfod diwethaf, sef yng nghyswllt Ty'n Ddol , Llanymawddwy – sef ail-adeiladu dwy simdde ar y tŷ presennol, trosi, newid ac estyniad i'r ddau ysgubor cyffiniol i greu llety ychwanegol i'r ffermdy presennol, ynghyd ac ail-doi'r ysgubor agored ar wahân. Newidiadau ac ail-doi'r twlc mochyn i greu clwyd ystlymod. Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais.

Wrth ystyried y mater cynllunio yma, roedd y Cyng. Arfon Hughes yn parhau i ofyn am ymddiheuriad yng nghyswllt yr eitem flaenorol. Atgoffwyd pawb eto o benderfyniad y Cyngor Cymuned a bod rhaid cadw at hyn. Yna cyfeiriodd y Cyng. Hedd Pugh sylw y Cadeirydd at y cod ymddygiad mewn sefyllfaoedd fel hyn, ac ein bod bellach mewn sefyllfa lle roedd y cod yn cael ei dorri. Yn dilyn y datganiad yma, aethpwyd ymlaen unwaith yn rhagor gyda threfn y cyfarfod.

5. Materion Cyllid.

Adroddwyd yn llawn am yr holl anfonebau a ddanfonwyd i'r Cyngor Cymuned a chytunwyd i'w talu fel a ganlyn;

Anfoneb Cyngor Gwynedd am yr Archwiliad mewnol - £174

Anfoneb Cyngor Gwynedd am ein costau i fod yn rhan o bartneriaeth gyda thoiled cyhoeddus Dinas Mawddwy - £2000.

Anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru am yr archwiliad allanol- £232.25.

Anfoneb HG Web designs am baratoi gwefan l'r Cyngor - £360.

Anfoneb Tegid Humphreys am dorri gwair mynwentydd Llanymawddwy a Mallwyd 3 gwaith yn ystod 2019, a torri gwrych ym mynwent Llanymawddwy - £910.

Anfoneb Hefin Davies am dorri gwair mynwent Dinas Mawddwy 3 gwaith yn ystod 2019 - £400.

Roedd cais am arian l law gan 'Dawns l Bawb' – elusen gofrestredig yn cynnig rhaglen ddawns addysg a chymunedol – penderfynwyd peidio cyfrannu.

Aethpwyd ymlaen l gael trafodaeth lawn ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21, sef ar gyfer paratoi am benderfyniad gyda'r preasept. Dosbarthwyd daflen l bawb yn nodi costau 2018-19, 2019-20 a 2020 – 21, a'r holl wybodaeth angenrheidiol. Roedd angen penderfyniad am ein preaept ar gyfer 2020-21 erbyn y 24ain o Ionawr 2020, a gwelwyd y gallem gael trafodaeth bellach yn ein cyfarfod nesaf, fyddai yn cael ei gynnal ar Nos Fercher yr 22ain o Ionawr.

Wrth ystyried y preaept, awgrymwyd tybed a ddylem feddwl am syniadau megis talu am ginio i'r henoed yn ardal y Cyngor Cymuned, neu roi tocynnau llyfr o bosib i blant sy'n cychwyn yr ysgol. Dywedodd y Cyng J P Roberts (Cyngor Gwynedd) y byddai yn fwy clir ymhle y byddai toriadau Cyngor Gwynedd erbyn y tro nesaf. Gwelwyd y dylem ystyried hyn ymhellach ym mis Ionawr.

6. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at gais trwydded eiddo Camlan, a oedd wedi ei ddosbarthu i bawb ers y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd consensws gyda'r cais yma ymysg Cynghorwyr, a bod y cyfan o'r ohebiaeth wedi ei ddanfon i Heilyn Willimas y Swyddog Trwyddedu.
- b) Adroddwyd am ohebiaeth gan swyddfa Comisiynydd yr heddlu a oedd yn awyddus i glywed am ein barn ar blismona a blaenoriathau yng nghyswllt preaept i'r heddlu.
- c) Adroddwyd am ohebiaeth am Gyfarfod Blynyddol Eco Dyfi a oedd i'w gynnal Nos Iau 5ed o Ragfyr – roedd hyn eisoes wedi ei gylchredeg i Gynghorwyr. Cytunodd y Cyng. Arfon Hughes i fynychu.
- d) Nodwyd ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd yn gofyn a oedd yna finiau halen yn yr ardal angen eu llenwi – roedd y Clerc hefyd wedi danfon i bawb o'r Cynghorwyr ynglyn a hyn ac roedd cais eisoes wedi ei wneud i llenwi biniau Rhiw Penrhiwcul a ffordd Gweinion. Nodwyd fod angen biniau o'r newydd ar rhiw Abercywarch a ffordd y Cytir. Nodwyd nad oedd y lori graeanu yn dod i Gywarch nac ychwaith

drwy y Cytir bellach, ac roedd angen codi hyn efo Cyngor Gwynedd. Nodwyd hefyd y siom am pa mor aml y mae Bwlch yr Oerddrws yn cael ei graeanu, gan fod problemau wedi bod yno yn ystod eira yn ddiweddar.

- e) Roedd llythyr i law gan Gyngor Gwynedd ynglyn a Maes Chwarae Lawnt y Plas, ac yng ngwyneb toriadau yn y gyllideb ganddynt, roedd cais yn gofyn a fyddem ni fel Cyngor – neu grwpiau cymunedol - yn fodlon cymryd cyfrifoldeb. Roedd angen ateb erbyn 31 Rhagfyr. Yn dilyn trafodaeth, gwelwyd bod yn well gadael hyn am y tro a pheidio ymateb. Byddai cymryd cyfrifoldeb yn benderfyniad mawr gan fod rheolau caeth i'w dilyn yn y cyswllt yma.
- f) Darllenwyd yn llawn lythyr y Parc Cenedlaethol ynglyn a Tai Teg – sef cofrestr Tai fforddiadwy. Y bwriad oedd casglu gwybodaeth am yr angen am eiddo fforddiadwy.
- g) Nodwyd ohebiaeth gan Mantell Gwynedd yn cynnig apwyntiadau gyda swyddog y Loteri Genedlaethol Dydd Mawrth 10fed o Ragfyr.
- h) Roedd ymholiad Cyng Arfon Hughes ynglyn a dwr yn gollwng yn y toiledau yn y Dinas wedi ei basio ymlaen i Amanda Murray yn Cyngor Gwynedd.
- i) Roedd Cyng Arfon Hughes wedi danfon ymlaen lun o ribio wedi digwydd yn dilyn glanhau ochr ffordd A470 - gwelwyd fodd bynnag fod hyn yn rhywbeth sy'n anorfod o ddiwydd o dro i dro.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Rhoddwyd gair o ganmoliaeth i'r gwaith diweddar gan Gyngor Gwynedd ar ffordd Cywarch.
- b) Roedd angen glanhau y palmentydd rhwng Minllyn a Dinas, ac hefyd i lawr am Dolybont.
- c) Roedd angen symud ymlaen gyda'r gwaith ar y Ty Hers, ond eglurwyd mai mater i'r ymddiriedolwyr oedd hyn, ac roedd y mater wedi ei godi gyda hwy.
- d) Roedd y ffordd yn rhoi tu ol i'r tai teras yn Aberangell, ac angen sylw.
- e) Roedd angen gofyn a allai'r lori graeanu ddod yn ol drwy'r hen ffordd yn ol i Dinas.
- f) Roedd gwair yn tyfu ar y bont ger Brynffynnon yn Aberangell, ac angen sylw.
- g) Rhoddwyd gair o ganmoliaeth i'r gwaith o dorri gwair ar y ffordd i Gartheiniog, Aberangell.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 22ain Ionawr yn Neuadd Dinas
Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**